Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

# Polisi Eiddo Deallusol

CYNNWYS


Cefndir ........................................................................................................ 1
Statws ac amrywio ........................................................................................ 1
1. Cyflwyniad a diffinio termau ...................................................................... 1
2. Egwyddorion Cyffredinol ........................................................................... 2
6. Cyhoeddi .................................................................................................. 7
7. Masnacholi Eiddo Deallusol sy’n perthyn i’r Drindod Dewi Sant ......................... 7
8. Ymchwil Contractau ac Ymgynghoriaeth ......................................................... 8
9. Rhannu Cyllid ............................................................................................ 8
10. Logo ........................................................................................................ 10
11. Hawliau Moesol ........................................................................................ 10
12. Cyfrinachedd ............................................................................................ 10
13 . Gwrthdaro Buddiannau ............................................................................. 10
14. Torri’r Polisi neu’r Arweiniad ..................................................................... 10
15. Gweithredu a Datrys Anghydfod ................................................................. 10
16. Dolenni at bolisïau / gweithdrefnau eraill .................................................... 11
17. Goblygiadau Adnoddau .............................................................................. 13
18. Asesu Effaith ............................................................................................ 13
19. Rheoli Fersiynau Dogfennau ....................................................................... 14

## Cefndir

Mae Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant o'r farn fod creu eiddo deallusol yn bwysig gan ei fod yn ategu nifer o'i hamcanion strategol ac yn rhan annatod o'r amcanion craidd o greu gwybodaeth, trosglwyddo gwybodaeth, ysgolheictod a dysg. Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i ddatblygu polisïau a gwasanaethau cymorth sy'n creu'r amgylchedd gorau posibl ar gyfer creu eiddo deallusol a'i drosglwyddo i ddefnydd ymarferol. Nodweddion canolog yr athroniaeth a'r cyfrifoldeb hwn yw:

i. cymhellion cryf i'r staff greu eiddo deallusol.
ii. gwasanaethau tryloyw ac effeithiol sy'n gallu helpu i werthuso ac amddiffyn yr Eiddo Deallusol, ac wedyn penderfynu ar y trefniadau mwyaf priodol i'w drosglwyddo er mwyn ei roi ar waith;
iii. trefniadau ar gyfer rhannu unrhyw fudd masnachol yn sgil masnacholi eiddo deallusol sy'n darparu ar gyfer taliadau hael i gychwynwyr yr eiddo deallusol;
iv. ceisio creu gweddill i'r Brifysgol dros ben adennill unrhyw gostau a allai ddod i'w rhan wrth fasnacholi Eiddo Deallusol.
v. dull sy'n gwbl gydnaws â rhyddid academaidd a datblygiad gyrfa.

## Statws ac amrywio

Mae'r polisi hwn wedi ei ymgorffori'n benodol yng nghontractau cyflogaeth pob cyflogai ac unrhyw berthynas rhwng y Brifysgol a'i myfyrwyr. Mae'n disodli unrhyw bolisi Eiddo Deallusol blaenorol a gallai newid yn y dyfodol.

## 1. Cyflwyniad a diffinio termau

1.1 Amcan y polisi hwn fydd darparu fframwaith dealladwy a chyson lle datblygir Eiddo Deallusol Y Drindod Dewi Sant a'i reoli er lles y Brifysgol, y cychwynnwr a lles y cyhoedd. Mae'n nodi polisi a rheolau'r Drindod Dewi Sant ynghylch:

i. perchenogaeth Eiddo Deallusol a grëir gan gyflogeion y Brifysgol ("Personél y Brifysgol");
ii. defnyddio a masnacholi Eiddo Deallusol;
iii. gweithredu a gweinyddu'r Polisi Eiddo Deallusol.

Gellir ychwanegu at y polisi hwn o bryd i'w gilydd gan gyngor ychwanegol, a gyhoeddir yn unol â'r Gweithdrefnau.

1.2 Ystyr Eiddo Deallusol yw (1) patentau, hawlfraint, hawliau cronfeydd data, hawliau dylunio, nodau masnach, hawliau topograffeg, hawliau bridwyr planhigion a phob hawl ddeallusol neu ddiwydiannol arall boed yn gofrestredig neu'n anghofrestredig sy'n bodoli ar hyn o bryd neu yn y dyfodol o dan gyfraith Cymru a Lloegr, cyfraith yr Undeb Ewropeaidd neu gyfraith unrhyw ddeddfwriaeth arall ledled y byd (2) yr hawl i wneud cais ar gyfer, a cheisiadau ar gyfer yr hawliau hynny a'r (3) holl estyniadau neu adnewyddiadau ar yr hawliau hyn.

Rhaid i Eiddo Deallusol gynnwys yr holl asedau deallusol eraill megis hawliau ym maes dyfeisiadau e.e. technolegau newydd, dulliau a darganfyddiadau ac unrhyw gynnyrch neu briodoledd gweithgarwch deallusol neu academaidd (pa un a yw hawliau eiddo ffurfiol yn bodoli ai peidio neu a oes modd iddynt fodoli yn y rhain) megis (heb eu cyfyngu i'r rhain) gallu, gwybodaeth ac arbenigedd, sgiliau, technegau, a chanlyniadau arbrofion, profion, neu gyfrifiadau.

1.3 Ystyr Masnacholi yw sicrhau budd masnachol neu ariannol trwy ymelwa ar Eiddo Deallusol, a rhaid dehongli Masnacholi yn y modd hwn.

1.4 Ystyr Creu yw creu, dyfeisio, dylunio, dychmygu, darganfod, bod yn awdur neu fel arall bod wrth wraidd unrhyw Eiddo Deallusol a rhaid dehongli'r crëwr yn unol â hynny.

1.5 Mae Personél y Brifysgol yn golygu cyflogeion y Brifysgol.

Mae 'Cyflogai' yn golygu unigolyn sydd wedi ymrwymo wrth gontract cyflogaeth neu sy'n gweithio (neu, os yw'r gyflogaeth wedi dod i ben, sydd wedi gweithio) o dan gontract cyflogaeth (Deddf Hawliau Cyflogaeth 1996)

1.6 Mae Gweithdrefnau'n golygu Gweithdrefnau'r Drindod Dewi Sant ar gyfer ei Bolisi Eiddo Deallusol fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd ynghylch gweithredu a gweinyddu'r Polisi hwn.

1.7 Mae'r Pwyllgor Eiddo Deallusol yn golygu grŵp yn y Brifysgol sy'n bennaf gyfrifol am weinyddu a gweithredu'r polisi hwn.

## 2. Egwyddorion Cyffredinol

**Yr egwyddorion cyffredinol wrth wraidd y polisi hwn yw:**

2.1 Hawlia'r Brifysgol berchenogaeth ar yr holl eiddo deallusol y mae ganddi hawl arno:

2.1.1 O dan y contract cyflogaeth rhwng y Brifysgol a'r cyflogai perthnasol yn y Brifysgol;

2.1.2 O dan unrhyw gontract ysgrifenedig arall rhwng y Brifysgol a'r cyflogai perthnasol yn y Brifysgol (pa un a lofnodwyd y cytundeb hwn cyn neu ar ôl dyddiad y polisi hwn).

Os bydd unrhyw wrthdaro rhwng y polisi hwn ac unrhyw un o'r contractau blaenorol, rhaid dehongli'r darpariaethau sy'n gwrthdaro yn y modd hwn:

(a) rhaid i'r contract cyflogaeth a chontractau ysgrifenedig eraill gael blaenoriaeth ar y polisi hwn;

(b) rhaid datrys unrhyw wrthdaro rhwng y contract cyflogaeth a chontractau ysgrifenedig eraill yn unol â'u telerau (ar yr amod, os yw'r telerau hyn yn dawel am anghydfodau, mai'r rhai a lofnodwyd yn fwyaf diweddar fydd gryfaf).

2.2 Ni fydd y Brifysgol yn hawlio perchenogaeth ar unrhyw eiddo deallusol a ddatblygwyd gan gyflogai cyn iddo ddechrau ar ei gyflogaeth.

2.3 Nid oes gan y Brifysgol yr hawl i rannu yn y budd masnachol a allai godi wrth ymelwa ar Eiddo Deallusol a grëwyd gan gyflogi nad yw'n eiddo i'r Brifysgol yn y contract cyflogaeth na chontract arall. Gallai'r Brifysgol a'r crëwr ymrwymo wrth gytundeb ysgrifenedig lle caiff y Brifysgol ganiatâd i ddefnyddio Eiddo Deallusol at ddibenion academaidd.

2.4 Mae gan y Brifysgol yr hawl i rannu yn y budd masnachol a allai godi o fanteisio ar Eiddo Deallusol a grëwyd gan y Brifysgol yn y contract cyflogaeth neu gontract arall.

2.5 Os bydd y Brifysgol yn penderfynu peidio ag arfer ei hawl i fasnacholi Eiddo Deallusol, gallai gytuno i neilltuo'r hawliau. Wrth wneud hyn, bydd y Brifysgol yn gweithredu'n rhesymol ac yn ddidwyll a bydd yn ymgynghori â'r crëwr.

2.6 Pryd bynnag y bydd cronfeydd, personél, cyfleusterau ac adnoddau eraill yn rhan o (1) greu Eiddo Deallusol y bydd ymelwa arno'n fasnachol neu (2) gyflawni gweithgareddau masnachol eraill, rhaid i'r Brifysgol sicrhau gwerth da am ei buddsoddiad.

Y rheswm dros hyn yw:

- Fel elusen, mae'n ddyletswydd ar y Brifysgol i sicrhau y rhoddir cyfrif cywir am y defnydd a wneir ar ei adnoddau;
- Mae'r rhan fwyaf o weithgarwch ac adnoddau'r Brifysgol yn derbyn arian cyhoeddus. Yn gyffredinol, ni ellir defnyddio arian neu adnoddau cyhoeddus i greu budd uniongyrchol neu anuniongyrchol ar weithgarwch busnes oni bai fod y Brifysgol yn cael gwerth teg.

2.7 O ystyried amrywiaeth y gweithgarwch yn y Brifysgol a allai arwain at greu Eiddo Deallusol ac amrywiaeth o opsiynau ar gyfer masnacholi neu ymelwa a allai godi, bydd y Brifysgol fynd ati 'fesul achos' i ystyried materion sy'n gysylltiedig ag Eiddo Deallusol.

## 3. Perchenogaeth Eiddo Deallusol

**Staff y Brifysgol**

3.1 Rhagdybir bod yr Eiddo Deallusol a grëir gan gyflogai yn ei m/faes arbenigedd academaidd neu ymchwil ystod cyfnod ei ch/gyflogaeth i'r Brifysgol wedi ei greu yn ystod ei gyflogaeth, ac o'r herwydd, eiddo'r Brifysgol ydyw.

3.2 Mae defnyddio arian, cyfleusterau, personél ac adnoddau eraill wrth greu eiddo deallusol yn dangos ei fod wedi ei greu yn ystod eu cyflogaeth ac o'r herwydd eiddo'r Brifysgol ydyw.

3.3 Mae'n ddyletswydd ar gyflogeion y Brifysgol i ddatgelu i'r Brifysgol unrhyw Eiddo Deallusol a grëwyd ganddynt yn ystod cyfnod eu cyflogaeth, y gellir ystyried yn rhesymol ei fod yn addas ar gyfer ymelwa'n fasnachol.

3.4 Mae'r Brifysgol yn cydnabod bod cyhoeddi mewn gweithiau ysgolheigaidd yn bwysig i gyflogeion a'r Brifysgol. Anogir cyflogeion i gyhoeddi a chânt gadw'r elw am eu cyhoeddiadau. Eiddo cyflogeion fydd yr hawlfraint ar eu gweithiau ysgolheigaidd. Fodd bynnag, gallai'r hawl i gyhoeddi fod yn gyfyngedig o dan rai amgylchiadau:

i) gan delerau a osodir gan drydydd partïon;

ii) lle mae'r Brifysgol a'r cyflogai wedi cytuno ymlaen llaw na ddylid cyhoeddi'r gwaith;

iii) pe bai modd ystyried yn rhesymol y gallai cyhoeddi greu risg o ran ymelwa yn y dyfodol ar lenyddiaeth Eiddo Deallusol, gweithiau artistig eraill, meddalwedd a dyfeisiadau eraill.

3.5 Gellir trwyddedu hawlfraint i'r Brifysgol i'w defnyddio ar gyfer ei gweithgareddau busnes ei hun. i gael rhagor o fanylion am Hawlfreintiau, ewch i adran 5.

## 4. Deunyddiau Addysgu a Deunyddiau Academaidd eraill

4.1 Yr egwyddor a ddefnyddia'r Brifysgol ar gyfer deunyddiau addysgu a deunyddiau academaidd eraill yw y dylai fod gan y Brifysgol yr hawl i ddefnyddio Eiddo Deallusol at ei dibenion ei hun a chael cyfran o unrhyw elw yn sgil masnacholi, ond nid yw'n mynnu cael perchenogaeth.

Diffinnir Deunyddiau Addysgu yn unrhyw ddeunyddiau, boed yn ysgrifenedig, wedi eu recordio neu ar ffurf electronig arall, gan gynnwys deunydd ar y we, rhaglenni cyfrifiadurol, deunydd dysgu ar gyfrifiadur a chronfeydd data, a gynhyrchwyd gan un neu ragor o aelodau staff yn ystod eu dyletswyddau i'w defnyddio mewn modwl rhaglen gradd neu mewn cysylltiad ag un neu gwrs arall a gynigir gan y Brifysgol. Mae hyn yn cynnwys canllawiau cwrs, llyfrynnau a deunyddiau cyflwyno (gan gynnwys nodiadau darlith, sleidiau a deunyddiau clywedol eraill), llawlyfrau hyfforddi a deunyddiau asesu ac arholi.

4.2 Eiddo'r crëwr fydd yr hawlfraint ar ddeunyddiau addysgu, academaidd, a deunyddiau argraffedig eraill (llyfrau, erthyglau ac ati), traethodau ymchwil a thraethodau hir, cynlluniau gwersi a modylau dysgu ac eithrio pan fyddant yn cynnwys meddalwedd gyfrifiadurol wreiddiol, manylion dyfais neu wybodaeth arall y gellir ymelwa arni'n fasnachol neu fedr nad yw'n hysbys i'r cyhoedd.

Caiff y Brifysgol orfodi ei hawliau perchenogaeth fel y'u nodir yn adran 5.1 neu o dan amgylchiadau pan fo Cymal 5.1.vi yn berthnasol ac mae rhwymedigaeth gytundebol y Brifysgol i feddu ar yr hawlfraint.

4.3 Rhaid i'r Brifysgol gael hawl anghyfyngedig ddiamodol, barhaus a di-alw yn ôl i gopïo, defnyddio ac addasu'r deunyddiau hyn at bob diben sy'n gysylltiedig â'r Brifysgol ac unrhyw sefydliad cyswllt neu is-sefydliad. Rhaid i'r drwydded sy'n gysylltiedig â Deunyddiau Academaidd fod yn anghyfyngedig. Rhaid i'r drwydded ar gyfer Deunyddiau Addysgu, cynlluniau gwersi a modylau dysgu fod yn gyfyngedig yn ystod y cyfnod cyflogaeth ac yn anghyfyngedig wedyn. Yn ôl ei disgresiwn, bydd y Brifysgol yn rhoi cydnabyddiaeth resymol a phriodol o'r crëwr.

4.4 Ni chaiff y crëwr gyhoeddi gwybodaeth y gellid ei hystyried yn rhesymol ei bod yn un sensitif o safbwynt masnachol neu greu risg o ran ymelwa ar Eiddo Deallusol yn y dyfodol, nac unrhyw wybodaeth sy'n groes i gytundeb rhwng y Brifysgol a thrydydd parti.

4.5 Os caiff Deunyddiau Addysgu neu Ddeunyddiau Academaidd eraill neu unrhyw ddeunydd arall a gynhwysir o dan Gymal 4.2 eu masnacholi, bydd y darpariaethau rhannu cyllid yn Adran 9 yn berthnasol.

4.6 Rhaid i'r crëwr sicrhau bod unrhyw hawliau eiddo deallusol a drwyddedir neu a neilltuir mewn Deunyddiau Addysgu neu Ddeunyddiau Academaidd neu unrhyw fater a gynhwysir o dan Gymal 4.2 i drydydd parti, megis cyhoeddwr academaidd, yn amodol ar hawl y Brifysgol i ddefnyddio ac addasu'r deunyddiau hyn.

4.7 Bydd y crëwr yn gyfrifol ar gyfer sicrhau nad yw'n amharu ar hawliau partïon eraill a bydd yn cydnabod yr hawliau moesol i gydnabod cychwynwyr.

## 5. Hawlfreintiau

5.1 Nid yw'r Brifysgol yn mynnu bod iddi hawl perchenogaeth ar hawlfreintiau ynghylch llyfrau, erthyglau cyhoeddedig a deunyddiau ysgolheigaidd eraill, dramâu, cyfansoddiadau cerddorol neu ddyluniadau artistig, ac eithrio yn y sefyllfaoedd canlynol:

i. Mae'r gwaith wedi ei gomisiynu'n benodol gan y Brifysgol;
ii. Cyflawnwyd y gwaith wedi ei wneud trwy ddefnydd sylweddol ar adnoddau'r Brifysgol;
iii. Mae gofyn i'r Brifysgol gan drydydd parti neu o dan gontract arall fynnu perchenogaeth neu neilltuo hawliau perchenogaeth ac mae'r gweithiau dan sylw wedi eu creu wrth gyflawni'r contract;
iv. Mae cytundeb ysgrifenedig sy'n cadarnhau perchenogaeth y Brifysgol; neu
v. Hawlfraint mewn unrhyw waith lle gall fod angen amddiffyn hawliau mewn Eiddo Deallusol y gellir ymelwa arno'n fasnachol, neu
vi. Bydd Eiddo Deallusol a grëwyd at ddibenion gweinyddol y Brifysgol yn eiddo'r Brifysgol.

5.2 Mae'r darpariaethau hyn yn caniatáu i'r Brifysgol hawlio perchenogaeth ar hawlfreintiau ar ddeunyddiau a grëwyd gan gyflogeion yn ystod eu cyflogaeth.

5.3 Hyd yn oed os nad yw'r Brifysgol wedi hawlio mai hi piau'r hawlfraint, rhaid serch hynny i grëwr y deunyddiau hawlfraint roi i'r Brifysgol drwydded ddi-freindal anghyfyngedig, ddi-alw yn ôl dros byth i ddefnyddio'r deunyddiau hawlfraint at ddibenion addysgu neu ddibenion eraill y cytunwyd arnynt. Bydd y drwydded yn parhau'n weithredol hyd yn oed pan fydd cysylltiad y crëwr â'r Brifysgol wedi dod i ben.

5.4 Eiddo'r Brifysgol fydd yr hawlfraint yn achos gweithiau a gynhyrchwyd trwy ddefnydd sylweddol ar adnoddau'r Brifysgol. Fel arfer yr adnoddau a gymerir i ystyriaeth fydd offer technegol a ddefnyddir yn benodol at ddiben creu'r Eiddo Deallusol. Gallai hyn gynnwys offer arbenigol a pheirianwaith, caledwedd a/neu feddalwedd (gallai hyn hefyd gynnwys offer symudol). Yn ôl ei disgresiwn ei hun, o dan delerau ac amodau y barna eu bod yn briodol, caiff y Brifysgol roi trwydded anghyfyngedig i'r crëwr ddefnyddio'r deunyddiau.


Penderfynir a wnaed defnydd sylweddol ar adnoddau'r Brifysgol ar sail ffeithiau ac amgylchiadau'r gwaith a arweiniodd at yr Eiddo Deallusol. Rhaid i gyflogeion drafod ffeithiau ac amgylchiadau'r prosiect gyda swyddfa RIES ar ddechrau'r prosiect. Nid yw'r Brifysgol yn ystyried bod defnyddio adnoddau swyddfa neu'r llyfrgell yn ddefnydd sylweddol ar yr amod fod hynny'n rhesymol ei hyd a'i amlder, nad yw'n amharu ar fusnes y Brifysgol ac nad yw'n creu cost ychwanegol.

At ei gilydd, ni ystyrir y bydd dyfais, meddalwedd na deunydd hawlfraint arall nac eiddo ymchwil haniaethol wedi eu datblygu trwy ddefnydd sylweddol ar adnoddau'r Brifysgol os:

i. Na ddefnyddiwyd arian y Brifysgol, nac arian grant a ddyfarnwyd i'r Brifysgol, i gefnogi'r datblygiad;

ii. Ychydig iawn o amser a dreuliwyd yn defnyddio cyfleusterau'r Brifysgol a dim ond hyn a hyn o gyfleusterau ac offer a ddefnyddiwyd

5.5 Penderfynir ar yr adnoddau a ddefnyddir yn unol â'r broses a nodir isod:


Y cyflogai'n datgelu'r adnoddau a ddefnyddir i'r Rheolwr Llinell neu RIES gan gwblhau'r Ffurflen Datgelu Syniadau
Os na fu neu oes nad oes angen defnyddio adnoddau sylweddol, mae'r Rheolwr Llinell yn cofnodi'r penderfyniad, yn rhoi gwybod i Bennaeth yr Athrofa a chaiff y Cyflogai ganiatâd i fwrw ymlaen.
Os bydd y Rheolwr Llinell yn ystyried bod adnoddau wedi eu defnyddio neu fod eu hangen, caiff y cyflogai wybod, a chyfeirir y mater at Swyddfa RIES.
Bydd RIES yn cysylltu â'r cyflogai i benderfynu ar y manylion a chwblhau asesiad ariannol o werth yr adnoddau a ddefnyddiwyd/i'w defnyddio
Bydd cynrychiolwyr o'r Athrofa a RIES yn dod i gytundeb â'r cyflogai ynghylch defnyddio adnoddau ac yn cynnig cytundeb i'w lofnodi gan y cyflogai a'r brifysgol.

5.6 Os bydd y Brifysgol yn masnacholi deunyddiau o dan hawlfraint, rhaid iddi drefnu rhannu'r cyllid yn deg â'r crëwr yn unol ag Adran 9 o'r Polisi hwn.

5.7 Pan fydd y deunyddiau o dan hawlfraint (neu Eiddo Deallusol arall) yn ddarostyngedig i brosiect ymchwil neu fel arall yn ddarostyngedig i gontract â thrydydd parti, unrhyw ddarpariaethau cytundebol ynghylch perchenogaeth yr hawlfraint fydd gryfaf. Bydd y Brifysgol, y cyflogai a'r ariannwr yn cytuno ar y telerau a fydd yn cael effaith ar berchenogaeth Eiddo Deallusol cyn i'r gwaith dan sylw ddechrau.

5.8 Bydd gan y Brifysgol yr hawl i neilltuo neu drwyddedu ei hawliau yn yr hawlfreintiau y mae'n berchen arnynt. Bydd y Brifysgol yn ymgynghori â barn ac yn ystyried barn y crëwr cyn neilltuo a thrwyddedu.

5.9 Oni bai yr awdurdodir hynny'n benodol yn ysgrifenedig, ni chaiff crëwr drwyddedu na neilltuo nac ymdrin fel arall â deunyddiau hawlfraint sy'n eiddo i'r Brifysgol.

5.10 Os oes cytundeb rhwng y Brifysgol a'r crëwr sy'n llywodraethu perchenogaeth y deunydd, telerau ac amodau'r Cytundeb fydd gryfach na thelerau cyffredinol y polisi hwn. Rhaid i bob cytundeb fod yn ysgrifenedig wedi ei lofnodi gan y naill barti a'r llall.

## 6. Cyhoeddi

6.1 Mae'r Brifysgol yn cydnabod y gall egwyddor mynediad agored at ymchwil ganiatáu cyfleoedd ymchwil newydd ac arwain at gynyddu effaith yr ymchwil. Mae'r Polisi Mynediad Agored yn cydnabod bod ymchwil a ariennir yn gyhoeddus yn eiddo i'r cyhoedd ac y dylai fod ar gael i bawb sy'n ceisio ei weld, pan fydd hynny'n briodol yn gyfreithiol, yn fasnachol ac yn foesegol. O dan y polisi hwn, ble bynnag y bo modd, mae gofyn cyflwyno pob allbwn ymchwil priodol gan staff sy'n gweithio i'r Brifysgol i Gadwrfa Mynediad Agored y Brifysgol.

## 7. Masnacholi Eiddo Deallusol sy'n perthyn i'r Drindod Dewi Sant

7.1 Ni chaiff Personél y Brifysgol, heb awdurdod penodol y Brifysgol, ddechrau ar unrhyw drafodaethau, negodi, trefniadau na chytundebau ag unrhyw berson neu sefydliad ynghylch unrhyw Eiddo Deallusol sy'n perthyn i'r Brifysgol.

7.2 Bydd gan y Brifysgol trwy'r Pwyllgor Eiddo Deallusol ddisgresiwn absoliwt i benderfynu a ddylid sicrhau amddiffyn ar gyfer eiddo deallusol ac a ddylid cynnal yr amddiffyn hwn.

7.3 Rhaid ffeilio patent neu unrhyw amddiffyn arall ar eiddo deallusol yn enw: "Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant" ac nid yn enw'r cyflogai. Pan fo'n bosibl gwneud hynny, cydnabyddir y cyflogai-ddyfeisiwr yn y cais.

7.4 Yn ôl ei disgresiwn ei hun yn unig, bydd gan y Brifysgol yr hawl i benderfynu a gaiff neu sut y caiff eiddo deallusol ei amddiffyn a'i fasnacholi neu fod ymelwa arno fel arall, ac os felly, y modd y manteisir arno a'r telerau a'r amodau ar gyfer ymelwa ar yr eiddo deallusol. Er y bydd y Brifysgol yn ceisio ymgynghori'n rhesymol ac yn ddidwyll â'r cyflogai cyn dod i unrhyw benderfyniad, bydd penderfyniad y Brifysgol yn derfynol ac yn absoliwt.

7.5 Oni bai y cytunir fel arall, os bydd y Brifysgol yn penderfynu ffeilio am amddiffyn eiddo deallusol, megis patent, nod masnach neu gais dylunio, ni fydd y cyflogai yn creu unrhyw gostau na threuliau ynghylch gwneud neu ddilyn ceisiadau.

7.6 Y Brifysgol yn unig fydd â'r hawl i benderfynu'r dull ar gyfer masnacholi ei Heiddo Deallusol.

Caiff y Brifysgol:

(1) drwyddedu yn ei henw ei hun yr Eiddo Deallusol i fusnes i'w fasnacholi neu i ymelwa arno, neu

(2) o dan y telerau a'r amodau y tybia eu bod yn briodol, drwyddedu'r Eiddo Deallusol i is-gwmni sydd â'r awdurdod i'w is-drwyddedu.

7.7 Os penderfyna'r Brifysgol beidio ag ymelwa ar yr eiddo deallusol y mae'n berchen arno neu os yw'n penderfynu rhoi'r gorau i ymdrechion i ymelwa ar eiddo deallusol, ar gais y dyfeisiwr, ni chaiff atal yn rhesymol na gohirio ei neilltuo i'r cyflogeion sydd wedi ei greu, ei ddatblygu neu ei ddyfeisio. Bydd y neilltuo hwn yn ddi-dâl ar yr amod mai'r aseinai fydd yn talu unrhyw dreuliau (e.e. cost cofrestru'r trosglwyddiad gyda Swyddfa Eiddo Deallusol). Bydd yr Aseinai yn rhoi trwydded i'r Brifysgol ddefnyddio'r Eiddo Deallusol at ddibenion academaidd.

Os caiff dyfais ei chreu ar y cyd gan nifer o gyflogeion, ymgynghorir yn rhesymol ac yn ddidwyll â phob un cyn neilltuo.

## 8. Ymchwil Contractau ac Ymgynghoriaeth

8.1 Pan fydd ymchwil a gynhelir gan y Brifysgol wedi ei ariannu gan gorff ariannol sydd wedi gosod telerau ynghylch eiddo deallusol sy'n perthyn i'r Brifysgol, y telerau a'r amodau hynny fydd gryfaf. Bydd y Brifysgol, y cyflogai a'r ariannwr yn cytuno ar y telerau fydd yn effeithio ar berchenogaeth Eiddo Deallusol cyn dechrau ar y gwaith dan sylw.

8.2 Er y bydd y Brifysgol yn ymdrechu i gynnal ei pherchenogaeth ar eiddo deallusol, y mae ganddi hawl arno, sy'n deillio o'r ymchwil neu fel arall i amddiffyn yn rhesymol ac yn ddidwyll fuddiannau ariannol y Brifysgol a'i chyflogeion, rhaid bod gan y Brifysgol ddisgresiwn absoliwt i dderbyn telerau ac amodau contract.

8.3 Mae'r Brifysgol yn cydnabod nad yw contractau masnachol yn anghydnaws â rhyddid academaidd, gan gynnwys cyhoeddi.

## 9. Rhannu Cyllid

9.1 Os bydd y Brifysgol yn dewis masnacholi'r eiddo deallusol a grëwyd gan gyflogai, bydd yn gwneud hynny mewn modd a fydd yn sicrhau gwerth da a phriodol am yr eiddo deallusol hwnnw.

9.2 Y Fformiwla Rhannu Cyllid.

Rhaid dosbarthu'r incwm net (yn ôl diffiniad 9.2 isod) yn sgil masnacholi eiddo deallusol sy'n perthyn i'r Brifysgol fel y nodir isod ac yn amodol ar Gytundeb Rhannu Cyllid i'w lofnodi gan bob parti, oni bai y cytunwyd ar hynny cyn unrhyw fasnacholi.

| Lefel y patent/ neu incwm syniad | Dyfeisiwr(wyr)/ neu Grëw(y)r | Cronfa Prifysgol | Adran y Dyfeisiwr |
|---|---|---|---|
| £ 2000 Cyntaf | 85% | 0% | 15% |
| Dros £ 2000 ac o dan £25,000 | 50% | 25% | 25% |
| Dros £25,000 ac o dan £50,000 | 40% | 30% | 30% |
| Dros £50,000 o freindaliadau patent | 35% | 35% | 30% |

9.3 Incwm net fydd y cyllid gros a gaiff y Brifysgol yn sgil masnacholi eiddo deallusol namyn y costau sy'n dod i ran y Brifysgol a'i his-gwmnïau wrth fasnacholi'r eiddo deallusol. Bydd y partïon yn cadw cofnodion cywir ynghylch unrhyw gostau, sy'n codi'n rhesymol ac yn gywir yn ystod y broses fasnacholi i'w heitemeiddio ac i gytuno arnynt.

9.4 Bydd y treuliau a ddirdynnir o'r cyllid gros er mwyn cyrraedd yr incwm net yn cynnwys ffioedd a threuliau a gododd wrth sicrhau a chynnal amddiffyniad eiddo deallusol, gan gynnwys ffioedd cyfreithiol ac asiant patent. Pethau eraill i'w dirdynnu yw'r taliadau a wneir i gydberchenogion a thrydydd partïon eraill (megis noddwyr gwreiddiol yr ymchwil a arweiniodd at greu'r eiddo deallusol), ffioedd ymgynghorydd perthnasol, a threuliau a grëwyd wrth farchnata a masnacholi'r eiddo deallusol.

9.5 Ar gais y Brifysgol, bydd y crëwr yn darparu cymorth yn ôl yr angen i gyflawni'r gwaith o fasnacholi dyfais yn effeithiol gan gynnwys cymorth priodol a rhesymol i drwyddedai unrhyw ddyfais, neu fel y nodir yn unrhyw Gytundeb Rhannu Cyllid.

9.6 Pan fydd mwy nag un cyflogai neu fyfyriwr sydd wedi creu'r eiddo deallusol, neu fel arall sydd wedi cyfrannu i greu, datblygu neu ddyfeisio, yn rhesymol ac yn ddidwyll, mater iddynt hwy fydd penderfynu sut y dosbarthir incwm rhyngddynt neu ymhlith ei gilydd. Os na fydd cytundeb, dylid cyfeirio'r mater at banel, a fydd yn ceisio barn arbenigol annibynnol briodol, o dan gadeiryddiaeth y Dirprwy Is-Ganghellor a fydd yn cymryd i ystyriaeth gyfraniad pob unigolyn i'r ddyfais.

9.7 Rhaid i'r Brifysgol fod yn gyfrifol am negodi'n rhesymol ac yn ddidwyll gyda thrydydd partïon am swm y breindaliadau neu gyllid arall y caiff y trydydd parti yn sgil ymelwa ar eiddo deallusol.

9.8 Yr unig rwymedigaeth a osodir gan y darpariaethau rhannu cyllid hyn yw rhannu incwm net â'r crëwr unwaith y bydd y Brifysgol wedi'i dderbyn. Nid oes rhwymedigaeth amlwg nac ymhlyg ar y Brifysgol i sicrhau y derbynnir y cyllid mwyaf am yr eiddo deallusol. Gall y Brifysgol, yn ô ei disgresiwn ei hun, yn rhesymol ac yn ddidwyll, gymryd unrhyw gamau sy'n dileu neu sy'n lleihau faint o gyllid a dderbynnir o eiddo deallusol sy'n eiddo i'r Brifysgol.

9.9 Yn achos marwolaeth unigolyn oedd i fod i dderbyn cyfran o gyllid, bydd y cyllid hwnnw'n daladwy i ystâd yr ymadawedig.

9.10 Os bydd y cyflogai yn gadael y Brifysgol bydd yn parhau i dderbyn y cyllid y mae ganddo/i hawl arno.

## 10. Logo

Ni chaiff unrhyw drydydd parti ddefnyddio logo neu logos y Brifysgol heb awdurdod ysgrifenedig yr Is-Ganghellor neu ei (h)enwebai.

## 11. Hawliau Moesol

Os hi piau'r hawlfraint, bydd y Brifysgol fel arfer yn cydnabod awduriaeth ac yn ystyried barn y crëwr wrth drefnu, masnacholi neu ddefnydd arall ar y gwaith. Mae'r Brifysgol yn cydnabod y caiff y crëwr farn ynghylch y modd y defnyddir ei ch/greadigaeth ac y bydd yn parchu'r hawliau moesol hynny nad ydynt wedi eu hepgor ohonynt eu hunain oddi mewn i'r contract cyflogaeth sef:

i) yr hawl i briodoli;
ii) yr hawl i wrthwynebu trin gwaith yn sarhaus;
iii) yr hawl i wrthwynebu priodoli ffug;
iv) yr hawl i breifatrwydd rhai ffotograffau neu ffilmiau.

## 12. Cyfrinachedd

Mae'n ddyletswydd ar bob cyflogai a myfyriwr i fod yn ymwybodol o unrhyw ddyletswydd neu ofynion o ran cyfrinachedd, a chydymffurfio ag unrhyw ddyletswydd neu ofynion o ran cyfrinachedd a osodir gan noddwr neu sy'n ofynnol er mwyn cynnal gallu patent eiddo deallusol gan y Brifysgol. Yn ogystal, mae'n rhaid i bob cyflogai a myfyrwyr amddiffyn a chadw'n gyfrinachol wybodaeth gyfrinachol y Brifysgol, cyfrinachau a medrau masnachol, neu wybodaeth debyg, medrau neu gyfrinachau masnachol sy'n eiddo i drydydd parti sydd wedi eu darparu i'r Brifysgol i'w defnyddio mewn prosiect ymchwil neu waith arall.

## 13 . Gwrthdaro Buddiannau

13.1 Mae'n ddyletswydd ar y Brifysgol yn sefydliad cyhoeddus i amddiffyn buddiannau ariannol y trethdalwr a phan fo posibilrwydd y gallai camau i'w cymryd greu gwrthdaro buddiannau go iawn neu ymddangosiadol, bydd rhaid i gyflogai neu fyfyriwr ddilyn y polisïau a'r gweithdrefnau a fabwysiedir gan y Brifysgol cyn dechrau ar y gweithgareddau hyn.

13.2 Pan fydd gwrthdaro buddiannau go iawn, posibl neu ymddangosiadol yn codi yng nghyd-destun ymchwil neu ymgynghoriaeth, amddiffyn eiddo deallusol, neu ymelwa ar eiddo deallusol neu ei ddefnyddio, rhaid i'r Brifysgol sefydlu gweithdrefnau ar gyfer datgelu gwrthdaro buddiannau a chymeradwyo'r gweithgarwch.

## 14. Torri'r Polisi neu'r Arweiniad

Os bydd Personél y Brifysgol yn torri unrhyw ran o'r polisi hwn neu unrhyw arweiniad a roddir yn unol â'r Gweithdrefnau, gallai hynny fod yn achos disgyblu a / neu droseddu ar hawliau'r Brifysgol, ac o'r herwydd gallai arwain at gamau disgyblu neu gamau cyfreithiol gan y Brifysgol.

## 15. Gweithredu a Datrys Anghydfod

15.1 Yn amodol ar Gymal 15.2 isod, cyfrifoldeb yr Is-Ganghellor fydd gweithredu a gweinyddu'r Polisi hwn, a chaiff ddirprwyo'r cyfrifoldeb hwnnw i berson arall.

15.2 Os bydd gan yr Is-Ganghellor neu Gadeirydd y Cyngor fuddiant personol mewn unrhyw fater sy'n gysylltiedig ag Eiddo Deallusol y Brifysgol neu os bydd buddiannau eraill ganddynt sy'n gwrthdaro â'r Brifysgol ynghylch unrhyw fater masnachol, rhaid defnyddio swyddogaethau'r Is-Ganghellor a/neu Gadeirydd y Cyngor (fel y bo'r achos)

o dan y polisi hwn a rhaid i'r Gweithdrefnau hyn gael eu gweithredu gan y person neu'r personau annibynnol hynny y penderfynir arnynt gan y Cyngor.

15.3 Rhaid i'r Gweithdrefnau gynnwys gweithdrefn datrys anghydfod mewnol.

15.4 Os bydd Personél y Brifysgol yn honni nad yw'r Brifysgol wedi cydymffurfio â'r Polisi hwn a'i weithdrefnau, caiff ef neu hi wneud cais bod yr achos yn cael ei ddatrys gan gyfryngwr y cytunir arno gan y Brifysgol a'r crëwr. Os na ddatrysir yr achos ymhen 30 niwrnod, bydd hawl atgyfeirio'r mater at ganolwr y bydd y naill barti a'r llall yn cytuno arno neu, os na allant gytuno ar y person ymhen un mis calendr ar ôl gwneud cais am ganoli, gan ganolwr a benodir gan Lywydd Cymdeithas Cyfraith Cymru a Lloegr. Cynhelir y canoli yn ôl cyfreithiau Cymru a Lloegr. Bydd penderfyniad y canolwr yn rhwymo'r Brifysgol a'r aelod staff a'r arbenigwr fydd yn penderfynu sut y dylid talu'r costau. Byddai croeso i bob parti gychwyn trafodion yn y llysoedd er mwyn ceisio cymorth gorfodol, datganiadol neu gymorth arall nad yw ar gael gan ganolwr.

## 16. Dolenni at bolisïau / gweithdrefnau eraill

- Polisi Cyhoeddi Mynediad Agored
- Gweithdrefnau Gwrthdaro Buddiannau

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

# Ffurflen Datgelu Syniad

**(Dim mwy na 3 tudalen)**

| | |
|---|---|
| **Enw:** | |
| **Adran:** | |
| **Cydweithredwyr/ cyfranwyr eraill (pan fo'n berthnasol):** | |

| |
|---|
| **1. Rhowch grynodeb o'r syniad.** |
| |
| **2. Nodwch y defnydd posibl ar y syniad, gan gynnwys y manteision.** |
| |
| **3. Beth yw'r manteision posibl i'r Drindod Dewi Sant o fuddsoddi yn y syniad?** |
| |
| **4. Beth rydych chi wedi ei wneud â'ch syniad chi hyd yn hyn (e.e. modelau, papurau, prototeipiau)?** |
| |
| **5. Beth yw'r camau nesaf? Cynhwyswch gerrig milltir o bwys, penderfyniadau i fynd/peidio â mynd a phethau i'w cyflawni.** |
| |
| **6. Rhowch fanylion unrhyw ddatgeliad blaenorol (e.e. papurau, cynadleddau)?** |
| |
| **7. Pa gyllid/adnoddau eraill y byddai arnoch eu hangen gan:** |
| **a). Eich Adran Academaidd (e.e. cyflenwi ar gyfer addysgu)?** |
| **b). Arian/adnoddau'r Drindod Dewi Sant (e.e. cyllideb ar gyfer amser staff, teithio, dilysu allanol)?** |
| **8. Pa adnoddau o'r Drindod Dewi Sant sydd wedi eu defnyddio hyd yn hyn i ddatblygu'r syniad?** |
| |
| **Datganiad** |
| **Cadarnhaf fod y wybodaeth a geir yn y ffurflen gais hon yn gywir ac y glynir yn llwyr wrth y gweithdrefnau adrodd a sefydlir gan RIES.** |
| **Llofnod yr Ymgeisydd: Dyddiad:** |
| **Cadarnhaf fod yr Athrofa yn llwyr gymeradwyo'r defnydd hwn. Os caiff arian ei ddyfarnu, cadarnhaf ymhellach y bydd yr Athrofa yn sicrhau y caiff yr ymgeisydd gymorth i ddatblygu'r syniad a ddisgrifir yn y cais hwn.** |
| **Llofnod Pennaeth yr Athrofa: Dyddiad:** |

## 17. Goblygiadau Adnoddau

| **Goblygiad** | **Manylion** |
|---|---|
| Cyllid | Nid oes unrhyw gostau ariannol uniongyrchol wrth weithredu'r polisi hwn. Fodd bynnag, mae'r Polisi'n ceisio amddiffyn buddiannau ariannol y Brifysgol, ei staff a'i myfyrwyr. |
| Staff | Caiff y Polisi hwn effaith ar y staff, o'r herwydd bu ymwneud rhwng Adnoddau Dynol a'r Undebau Llafur wedi digwydd yn ystod cyfnod drafftio'r Polisi hwn. |
| Asedau | Er nad oes gofynion asedau uniongyrchol yn gysylltiedig yn benodol â gweithredu'r Polisi hwn, trefnir bod systemau yn lle i gofnodi a rheoli Eiddo Deallusol. |
| Partneriaid | Bydd y Polisi hwn yn berthnasol i unrhyw drydydd partïon a allai fod yn rhan o greu neu ariannu unrhyw Eiddo Deallusol a grëir gan y Brifysgol, ei staff neu ei myfyrwyr. |
| Graddfeydd amser | Gweithredir y Polisi hwn pan y'i cymeradwyir gan Gyngor y Brifysgol. |
| Arweinyddiaeth | Y Dirprwy Is-Ganghellor (neu ei (h)enwebai) |

## 18. Asesu Effaith

| Goblygiad | A ystyriwyd yr effaith (Do/Naddo) | Yr effaith a nodwyd |
|---|---|---|
| Cyfreithiol | D | Gweler y manylion ym mhrif gorff y Polisi. |
| Cyfraniad i'r Cynllun Strategol | D | Mae'r Polisi'n cefnogi nifer o flaenoriaethau strategol y mae eu manylion i'w cael yn y Cynllun Strategol gan gynnwys amrywio ein sylfaen incwm, buddsoddi yn yr amgylchedd dysgu, datblygu ein galluoedd technegol a sicrhau bod ein fframwaith llywodraethu'n gadarn ac yn ateb y diben. |
| Dadansoddiad Risg | D | Ceisia'r Polisi reoli'r risg sy'n gysylltiedig ag amwysedd perchenogaeth Eiddo Deallusol. Mae'n darparu fframwaith sy'n anelu at amddiffyn buddiannau ariannol y Brifysgol, ei staff a'i myfyrwyr. |
| Cydraddoldeb | D | Bydd yr hyfforddiant a ddarperir a'r cyfathrebu ynghylch y polisi hwn yn cymryd i ystyriaeth y rhai sydd â nodweddion a amddiffynnir. Caiff myfyrwyr / staff sydd ag anghenion dysgu ychwanegol gymorth priodol wrth negodi telerau ac amodau Eiddo Deallusol. |
| Yr Iaith Gymraeg | D | Wedi iddo gael ei gymeradwyo, bydd y Polisi ar gael yn ddwyieithog. Cynhelir yr Ystorfa Mynediad Agored yn ddwyieithog. Bydd unrhyw gyfathrebu â'r staff, y myfyrwyr neu drydydd partïon ynghylch Eiddo Deallusol yn ddwyieithog. |
| Amgylcheddol a Chynaliadwyedd | D | Ceisia'r Polisi amddiffyn buddiannau ariannol y Brifysgol a thrwy hynny sefydlogrwydd ariannol y sefydliad. |
| Cyfathrebu / Y Cyfryngau / Marchnata | D | Rhoddir gwybod am gymeradwyaeth y Polisi hwn trwy amrywiol ddulliau gan gynnwys trwy'r Bwletinau Staff a Myfyrwyr, cyhoeddiadau ar MyDay a thrwy gyfathrebu'n uniongyrchol â'r rheini sy'n cyflawni Ymchwil yn y Brifysgol. |

**Awdur(on) y polisi:**

Gwasanaethau Masnachol, Arloesi a Menter Y Drindod Dewi Sant

## 19. Rheoli Fersiynau Dogfennau

| Rhif y fersiwn | Rheswm am newid: | Awdur: | Dyddiad newid: |
|---|---|---|---|
| 0.2 | Cais UCU | KAD | 16/05/16 |
| 0.3 | Diwygiadau y cytunwyd arnynt | KAD | 25/05/16 |
| 2.0 | Cytunwyd arnynt trwy gamau gweithredu'r Cadeirydd | | 31/10/17 |
| 2.1 | Diweddarwyd yn unol â strwythur sefydliadol Y Drindod Dewi Sant | IMW | 05/02/21 |

**Statws presennol y Polisi:** Cymeradwywyd
**Mae'r Polisi'n berthnasol i'r canlynol:** AU
**Dyddiad cadarnhau:** 31/10/2017
**Dyddiad yn effeithiol o:** 31/10/2017
**Dyddiad adolygu'r polisi:** 05/02/22
**I'w gyhoeddi:** ar wefan Y Drindod Dewi Sant a MyDay.